**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Ystyriaeth Cyfnod 1 o'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) – Mick Antoniw AC – Bil Aelod**

**Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

***Cwestiynau'r ymgynghoriad***

***Cyffredinol***

1. A oes angen Bil i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru?

*Byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill y costau y mae'n rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru eu talu wrth ofalu am bobl sy'n dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos a'u trin, a darparu bod yr arian sy'n cael ei adennill yn cael ei ddefnyddio i ofalu am ddioddefwyr a'u trin. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sail ddeddfwriaethol i Weinidogion Cymru adennill y costau hyn. Credaf ei bod yn briodol i'r rheini sy'n gyfrifol am y cysylltiad ag asbestos orfod cyfrannu at ofal a thriniaeth dioddefwyr, yn hytrach na bod pwrs y wlad yn gorfod talu'r holl gostau hyn, ac rwyf o'r farn bod y Bil yn cyflawni hyn mewn modd cymesur a chyfiawn.*

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol?

*Rwy'n fodlon bod y Bil fel y'i drafftiwyd yn cyflawni prif amcanion yr Aelod sy'n gyfrifol amdano. Wrth gwrs, bydd hi'n ddiddorol clywed barn y Pwyllgor ac eraill ar sut y gellir ei wella.*

3. A yw adrannau'r Bil yn briodol o ran cyflwyno cyfundrefn i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?

*Mae'r Llywodraeth yn fodlon bod adrannau'r Bil a'r pwerau sydd ynddynt i greu is-ddeddfwriaeth yn briodol i alluogi'r cynllun adennill costau arfaethedig i weithredu. Os bydd y Cynulliad yn pasio'r Bil, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ymgynghori, maes o law, ar yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu cynllun i adennill y costau perthnasol. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod unrhyw gynllun arfaethedig yn adennill y costau'n effeithiol gyda chyn lleied o wariant gweinyddol â phosibl.*

4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?

*Yn fras, byddai'r Bil yn ymestyn, mewn perthynas â thriniaeth a ddarperir gan, neu ar ran, y GIG yng Nghymru, darpariaethau tebyg i rai Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sy'n berthnasol i achosion anafiadau personol, i ddioddefwyr clefydau cysylltiedig ag asbestos. Felly mae gan sefydliadau (yn arbennig, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru) beth profiad o weithredu cynllun tebyg i'r*

*un a ragwelir gan y Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi asesiad o'r effaith ar y gwahanol sectorau dan sylw.*

*Ni ragwelir y bydd angen i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddatblygu a gweithredu trefniadau sylweddol newydd er mwyn darparu gwybodaeth i gefnogi'r cynllun adennill costau. Fodd bynnag, bydd angen rhywfaint o waith datblygu yn y cyfnod pontio. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn trafod hyn.*

5. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

*Er bod y Llywodraeth o'r farn bod y costau gweinyddol a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif cywir, bydd angen gwneud mwy o waith i gael syniad gweddol bendant o gostau gweinyddu'r cynllun. Yn arbennig, bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal trafodaethau manwl gyda'r Uned Adfer Iawndal (yn yr Adran Gwaith a Phensiynau). Ein bwriad, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad, yw rhoi cynllun ar waith ddechrau blwyddyn ariannol 2014-15. Mae hwn yn darged uchelgeisiol o gofio bod angen ymgynghori ar, paratoi a phasio drwy'r Senedd sawl eitem o is-ddeddfwriaeth a fydd yn sail i weithredu'r cynllun adennill costau.*

6. A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

*Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r farn ym Memorandwm Esboniadol yr Aelod Cyfrifol bod darpariaethau'r Bil yn dod o dan bennawd pwnc 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd) Rhan 1 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys yn benodol trefnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol. Roeddwn yn falch iawn hefyd o weld bod y Llywydd wedi cadarnhau ei barn bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.*

***Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth***

7. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

*Rydym yn fodlon bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, dim ond os yw'n briodol gwneud hynny. Y prif reswm am hyn yw er mwyn gallu gwneud darpariaeth fanwl mewn perthynas â gweithredu'r cynllun adennill costau. Rydym yn fodlon hefyd â'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer y Cynulliad sy'n cyd-fynd â'r pwerau, gan eu bod yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r canllawiau y mae'r Llywodraeth yn eu dilyn wrth ddrafftio darpariaethau.*

***Goblygiadau ariannol***

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

*Fel y nodir uchod, bydd angen gwaith pellach i bennu costau manylach ar gyfer y cynllun sy'n cael ei ragweld yn y Bil. Mae'r Bil yn cynnig dull seiliedig ar dariff a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu'r cynllun mewn modd sy'n cadw costau gweinyddol mor isel â phosibl, a byddwn yn ceisio gweithredu'r ddeddfwriaeth mewn modd sy'n lleihau'r*

*costau o gymharu â'r costau y gallwn eu hadennill. Ar y cyfan, rwyf o'r farn bod y Bil yn gyfle i ryddhau adnoddau sylweddol a bwriedir defnyddio'r rhain i ddarparu gwasanaethau ychwanegol er budd pobl sy'n dioddef o glefydau cysylltiedig ag asbestos a'u teuluoedd.*